Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:
33/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
21/05/2024

# Agweddau'r Cyhoedd at Deithio Llesol 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-836625-028-9

Agweddau'r Cyhoedd at Deithio Llesol 2022

Awdur: Gareth Curless

Casglwyd y data gan Beaufort Research Ltd

Adroddiad ymchwil llawn: Curless, Gareth (2024). *Adroddiad*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 33/2024.>
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/agweddaur-cyhoedd-tuag-deithio-llesol-mehefin-2022

Barn yr ymchwilwyr yw'r hyn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o anghenraid barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Gareth Curless
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: housingresearchteam@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys

Rhestr o dablau .......... 2
Rhestr o ffigurau .......... 3
Geirfa .......... 4
1. Cyflwyniad .......... 6
2. Methodoleg .......... 8
3. Canfyddiadau .......... 10
4. Casgliadau .......... 43
5. Atodiad A: Methodoleg (parhad) .......... 46
6. Atodiad B: Holiadur .......... 47

**Rhestr o dablau**

Tabl 3.1 Cyfraddau cerdded a rhedeg yn ôl oedran ........ 12
Tabl 3.2 Cyfraddau beicio yn ôl oedran ........ 12
Tabl 3.3 Cyfraddau teithio llesol yn ôl rhanbarth ........ 18
Tabl 3.4 Rhesymau dros newidiadau i drefniadau teithio ymatebwyr yn ôl oedran ........ 23
Tabl 3.5 Hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynghylch beicio a theithio llesol yn ôl oedran ........ 27
Tabl 3.6 Barn yr ymatebwyr ar deithio llesol yn eu hardal leol ........ 30
Tabl 3.7 Barn yr ymatebwyr ar welliannau i bobl sydd eisiau cerdded yn eu hardal leol yn ôl oedran ........ 31
Tabl 3.8 Barn yr ymatebwyr ar welliannau i bobl sydd eisiau beicio yn eu hardal leol ........ 32

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 3.1 Cyfraddau Teithio Llesol ........ 11
Ffigur 3.2 Cyfraddau teithio llesol yn ôl rhywedd ........ 14
Ffigur 3.3 Teithio llesol yn ôl diben y daith ........ 15
Ffigur 3.4 Cyfraddau teithio llesol ym mis Mehefin 2022 o'i gymharu â thair blynedd ynghynt ........ 17
Ffigur 3.5 Mwy neu lai o deithio llesol yn ôl rhywedd ........ 19
Ffigur 3.6 Rhesymau dros newidiadau i drefniadau teithio ymatebwyr ........ 21
Ffigur 3.7 Hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynghylch cerdded fel math o deithio llesol ........ 24
Ffigur 3.8 Hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynghylch beicio fel math o deithio llesol ........ 26
Ffigur 3.9 Hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynghylch teithio llesol yn ôl rhywedd ........ 27
Ffigur 3.10 Barn yr ymatebwyr ar ymgynghori gan y Cyngor ynghylch llwybrau beicio yn eu hardal leol ........ 34
Ffigur 3.11 Barn yr ymatebwyr ar fesurau i'w helpu i feicio mwy ........ 37
Ffigur 3.12 Asesiad ymatebwyr o fesurau i wella mynediad i feiciau ........ 39
Ffigur 3.13 Canfyddiad ymatebwyr o ddiogelwch mewn perthynas â theithio llesol yn ôl rhywedd ........ 41

**Geirfa**

| **Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Teithio Llesol | Diffinnir Teithio Llesol fel teithiau pwrpasol a wneir trwy feicio, cerdded neu redeg. Mae Teithio Llesol yn cynnwys teithiau i'r gwaith, addysg neu i ddefnyddio gwasanaethau.<br><br>Mae cerdded hefyd yn cynnwys defnyddio cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd. Mae cyfeiriadau at feiciau yn cynnwys mathau eraill o feiciau, fel beiciau tair olwyn neu feiciau llaw.<br><br>Nid yw beicio, cerdded neu redeg at ddibenion hamdden ac ymarfer corff yn cyfrif fel mathau o Deithio Llesol. |
| Gradd Gymdeithasol | Mae gradd gymdeithasol yn system ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth a ddatblygwyd i'w defnyddio ar yr Arolwg Cenedlaethol o Ddarllenwyr (NRS).<br><br>Diffinnir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:<br><br>AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddu a phroffesiynol uwch a chanolradd<br><br>C1: Galwedigaethau goruchwylio, clerigol, a rheoli, gweinyddu a phroffesiynol iau<br><br>C2: Gweithwyr llaw medrus<br><br>DE: Gweithwyr llaw lled-fedrus a heb sgiliau, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr dros dro a gweithwyr ar y radd isaf, pobl ddi-waith sy’n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig |
| Rheolaethau Cwota | Mae rheolaethau cwota yn golygu niferoedd targed o gyfweliadau ar gyfer grwpiau demograffig penodol sy’n rhan o’r boblogaeth, er mwyn helpu i gael sampl gynrychioliadol ar gyfer yr arolwg. |

| | |
|---|---|
| | Mae rheolaethau cwota demograffig sy’n plethu yn golygu bod y targed yn ymgorffori dau newidyn: grŵp oedran o fewn rhywedd. |
| Rhanbarth | Mae'r rhanbarthau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cynnwys awdurdodau unedol. Mae'r pum rhanbarth gwahanol yn cynnwys yr awdurdodau unedol canlynol:<br><br>Gogledd Cymru: Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Ynys Môn, Gwynedd<br><br>Canolbarth/Gorllewin Cymru: Powys, Ceredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro<br><br>Gorllewin De Cymru: Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>Y Cymoedd: Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent<br><br>Caerdydd a De-ddwyrain Cymru: Caerdydd, Bro Morgannwg, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yw gweld 'cerdded a beicio'n dod y ffordd fwyaf naturiol ac arferol o fynd o gwmpas.'[1]

1.2 Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella'r seilwaith ar gyfer beicwyr a cherddwyr yn barhaus. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau ffyrdd newydd ystyried anghenion beicwyr a cherddwyr yn y cam dylunio.

1.3 Mae teithio llesol yn rhan allweddol o'r Llwybr Newydd: Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021. Mae'r Strategaeth yn nodi targedau amrywiol sy'n ymwneud â theithio llesol. Mae'r targedau hyn yn cynnwys datblygu cyfleusterau ar gyfer beicwyr a cherddwyr, annog pob ysgol i gael cynllun teithio llesol, a gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo newid ymddygiad a thrwy hynny annog beicio a cherdded.[2]

1.4 Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru darged sero net carbon ar gyfer 2050. Bydd hyrwyddo teithio llesol ar draul defnyddio ceir preifat yn helpu Cymru i gyflawni'r targed hwn.

1.5 Mae teithio llesol yn berthnasol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd annog a galluogi mwy o bobl i feicio, cerdded a rhedeg mwy yn hyrwyddo dulliau teithio llesol, cynhwysol a mwy diogel yn unol â nodau llesiant y Ddeddf o greu Cymru fwy cyfartal ac iachach.[3]

1.6 Mae'r Ddeddf Teithio Llesol yn cynnwys gofyniad i gynnal adolygiad statudol heb fod yn hwyrach na phum mlynedd ar ôl ei gweithredu ac yn rheolaidd wedi hynny. Pwrpas yr adolygiad yw 'asesu pa mor llwyddiannus y bu wrth sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig a gwella'r llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig presennol.'[4] Dylai'r adolygiad hefyd asesu cynnydd wrth annog mwy o bobl i gerdded a beicio'n amlach a'r gwersi a ddysgwyd wrth gyflwyno'r ddeddfwriaeth.[5]

---

[1] Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (senedd.cymru), t. 9.
[2] Llwybr Newydd: strategaeth drafnidiaeth Cymru 2021 | LLYW.CYMRU, pennod 7.1.
[3] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU
[4] Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, t. 7.
[5] Canllawiau Ddeddf Teithio Llesol | LLYW.CYMRU, t. 26.

1.7 Er mwyn cefnogi'r adolygiad statudol, comisiynodd Llywodraeth Cymru i gwestiynau arolwg gael eu cynnwys yn arolwg Omnibws Cymru a gynhaliwyd gan Beaufort Research i ddeall ymddygiadau teithio cyfredol a blaenorol ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau am gymhellion a rhwystrau i deithio llesol i'r ymatebwyr.

1.8 Cynhaliwyd yr arolwg trwy don Mehefin 2022 Omnibws Cymru (6-22 Mehefin 2022). Gellir dod o hyd i'r cwestiynau a gafodd eu cynnwys yn yr arolwg yn Atodiad B i'r adroddiad hwn.

## 2. Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd yr ymchwil hwn drwy arolwg Omnibws Beaufort Cymru sy'n cyfweld â sampl gwota o 1,000 o oedolion (16 oed a hŷn) o bob rhan o Gymru.

Mae set wahanol o oedolion yn cael eu cyfweld ym mhob ton, ond mae samplau yr un fath o ran nodweddion demograffig allweddol.

2.2 Mae'r canlyniadau wedi'u gosod mewn tablau yn ôl categorïau demograffig unigol (oedran, rhanbarth, ethnigrwydd, gradd gymdeithasol, etc.). Gan fod ymatebwyr yn perthyn i fwy nag un categori demograffig, mae hyn yn golygu y gall atebion ymatebwyr i gwestiynau unigol gael eu cynrychioli fwy nag unwaith yn yr adroddiad hwn.

2.3 At hynny, mae'r defnydd o samplu cwota cyfrannol a data wedi'u pwysoli i adlewyrchu demograffeg allweddol o fewn poblogaeth Cymru yn golygu bod y canfyddiadau'n adlewyrchu barn y sampl, yn hytrach na barn y boblogaeth ehangach yng Nghymru.

2.4 Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r data wedi'u pwysoli i ddadansoddi defnydd ymatebwyr o deithio llesol a'u barn yn ei gylch. Ar gyfer rhai categorïau demograffig, nid yw'r data wedi'u pwysoli yn cyfateb i 1,000. Gallai hyn fod oherwydd bod rhai ymatebwyr fod wedi methu â chwblhau neu wrthod cwblhau'r rhannau perthnasol o'r arolwg.

2.5 Dylid nodi bod y defnydd o dalgrynnu rhifyddol i rifau cyfan yn golygu nad yw rhai colofnau'n cyfateb i 100 y cant. Mewn achosion eraill, mae'r defnydd o dalgrynnu rhifyddol yn golygu bod anghysondebau rhwng canlyniadau cwestiynau penodol o'u mynegi fel rhif a chanlyniadau'r un cwestiynau o'u mynegi fel canran.

2.6 Lle gallai ymatebwyr roi mwy nag un ymateb, gall y cyfanswm fod yn fwy na 100.

2.7 Dylid nodi hefyd, lle mae sylfeini colofnau wedi'u pwysoli yn cynnwys llai na 50 o ymatebwyr, mae angen dehongli canrannau gyda gofal. Er enghraifft, nododd cyfanswm wedi'i bwysoli o 47 o ymatebwyr eu bod yn perthyn i grŵp Pobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig. Gall y nifer isel o ymatebwyr sy'n Bobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ddwysau unrhyw wahaniaethau gydag ymatebwyr Gwyn.

2.8 Darparwyd data llawn ar ffurf tablau a'r data heb eu pwysoli o'r arolwg i Lywodraeth Cymru mewn adroddiadau technegol ar wahân a luniwyd gan Beaufort.

2.9 Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer arolwg Mehefin 2022 rhwng 6 a 26 Mehefin 2022. Cwblhawyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau.

2.10 Darparwyd cwestiynau drafft gan Dîm Teithio Llesol Llywodraeth Cymru. Cafodd y rhain eu cwblhau yn dilyn trafodaethau gyda Beaufort (gweler yr holiadur yn Atodiad B).

2.11 Roedd y rhan fwyaf o gwestiynau'r arolwg yn gwestiynau cwbl gaeedig. Mewn geiriau eraill, rhoddwyd set o opsiynau ymateb i'r cyfranogwyr ddewis o'u plith. Ar gyfer rhai cwestiynau, roedd angen ymateb unigol. Gydag eraill, roedd modd dewis nifer o ymatebion.

# 3. Canfyddiadau

## Pa ddulliau teithio llesol sy'n cael eu defnyddio yn ôl grŵp demograffig?

*Cerdded a Rhedeg*

3.1 Ym mis Mehefin 2022, roedd 74 y cant o'r holl ymatebwyr yn cerdded neu'n rhedeg fel math o deithio o leiaf unwaith yr wythnos (734 allan o 1,000 o ymatebwyr). Roedd 34 y cant o'r holl ymatebwyr yn cerdded neu'n rhedeg fel math o deithio rhwng 5 a 7 gwaith yr wythnos (336 allan o 1,000 o ymatebwyr).


3.2 Roedd gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau yn achos amlder cerdded a rhedeg ymhlith ymatebwyr. Roedd 80 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed yn cerdded neu'n rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos (233 allan o 296 o ymatebwyr). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 44 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed a oedd yn cerdded neu'n rhedeg rhwng 5 a 7 diwrnod yr wythnos (127 allan o 293 o ymatebwyr).

3.3 Ymhlith ymatebwyr 55 oed a hŷn, roedd 6 y cant yn cerdded neu'n rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos (265 allan o 381 o ymatebwyr). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 25% o'r ymatebwyr 55 oed a hŷn a oedd yn cerdded neu'n rhedeg rhwng 5 a 7 diwrnod yr wythnos (96 allan o 381 o ymatebwyr).

3.4 Roedd 72 y cant o'r ymatebwyr benywaidd yn cerdded neu'n rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos (367 allan o 509 o ymatebwyr), gyda 34 y cant o'r ymatebwyr benywaidd yn cerdded neu'n rhedeg rhwng 5 a 7 diwrnod yr wythnos (172 allan o 509 o ymatebwyr). Roedd y ffigurau'n debyg ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd. Roedd 76 y cant o'r ymatebwyr gwrywaidd yn cerdded neu'n rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos (364 allan o 486 o ymatebwyr), a 34 y cant yn cerdded neu'n rhedeg rhwng 5 a 7 diwrnod yr wythnos (162 allan o 486 o ymatebwyr).

3.5 Roedd canran uwch o'r ymatebwyr yn y Gogledd (81 y cant/180 allan o 223 o ymatebwyr) a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru (78 y cant/202 allan o 260 o ymatebwyr) yn cerdded neu'n rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu â rhanbarthau eraill. Y ffigurau cyfatebol oedd 71 y cant ar gyfer Gorllewin y De, 66 y cant ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin, a 69 y cant ar gyfer y Cymoedd.

Ffigur 3.1 Cyfraddau Teithio Llesol




| | |
|---|---|
| Walk or Run (All Respondents, Base: 1,000) | Cerdded neu redeg (Pob Ymatebydd, Sylfaen: 1,000) |
| Cycle (All Respondents, Base: 1,000) | Beicio (Pob Ymatebydd, Sylfaen: 1,000) |
| 7 Days a Week | 7 diwrnod yr wythnos |
| 5-6 Days a Week | 5-6 diwrnod yr wythnos |
| 2-4 Days a Week | 2-4 diwrnod yr wythnos |
| Once a Week | Unwaith yr wythnos |
| Once a Fortnight | Unwaith y pythefnos |
| Once a Month | Unwaith y mis |
| Less Often | Llai aml |
| Never | Byth |

Tabl 3.1 Cyfraddau cerdded a rhedeg yn ôl oedran[6]

| Oedran | 16-34 | 35-54 | 55+ |
|---|---|---|---|
| Sylfaen wedi'i phwysoli (Cyfanswm = 1,000). | 293 | 326 | 381 |
| 7 diwrnod yr wythnos | 24% | 19% | 13% |
| 5-6 diwrnod yr wythnos | 20% | 15% | 12% |
| 2-4 diwrnod yr wythnos | 24% | 22% | 26% |
| Unwaith yr wythnos | 12% | 16% | 18% |
| Unwaith y pythefnos | 6% | 3% | 3% |
| Unwaith y mis | 3% | 3% | 2% |
| Llai aml | 7% | 12% | 9% |
| Byth | 5% | 9% | 16% |

*Beicio*

3.6 Roedd cyfraddau beicio yn is o'u cymharu â rhedeg a cherdded. Dim ond 14 y cant o'r holl ymatebwyr a oedd yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos (136 allan o 1,000 o ymatebwyr). Dywedodd 60 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent erioed wedi beicio (603 allan o 1,000 o ymatebwyr). Roedd canran yr ymatebwyr a nododd nad oeddent erioed wedi beicio ar ei fwyaf ymhlith ymatebwyr 65 oed a hŷn (85 y cant) ac ymatebwyr benywaidd (71 y cant).[7]

Tabl 3.2 Cyfraddau beicio yn ôl oedran[8]

| Oedran | 16-34 | 35-54 | 55+ |
|---|---|---|---|
| Sylfaen wedi'i phwysoli | 293 | 326 | 381 |
| 7 diwrnod yr wythnos | 2% | 1% | 0% |
| 5-6 diwrnod yr wythnos | 3% | 4% | 0% |
| 2-4 diwrnod yr wythnos | 6% | 5% | 2% |
| Unwaith yr wythnos | 8% | 8% | 4% |
| Unwaith y pythefnos | 6% | 4% | 1% |
| Unwaith y mis | 7% | 5% | 1% |
| Llai aml | 24% | 21% | 12% |
| Byth | 44% | 53% | 79% |

[6] Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i 100 oherwydd talgrynnu.
[7] Y ffigurau oedd 159 o 1,000 ar gyfer ymatebwyr 65 oed a hŷn a 362 o 1,000 ar gyfer ymatebwyr benywaidd.
[8] Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i 100 oherwydd talgrynnu.

3.7 Roedd 19 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed a 18 y cant o'r ymatebwyr rhwng 35 a 54 oed yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos (54 allan o 293 a 57 allan o 326 o ymatebwyr yn y drefn honno). I'r rhai 55 oed a hŷn, mae'r ffigur yn llawer is. Dim ond 6 y cant o'r ymatebwyr yn y categori hwn a oedd yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos.

3.8 O ran canran, roedd mwy o ymatebwyr gwrywaidd (21 y cant) yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu ag ymatebwyr benywaidd (7 y cant).[9]


3.9 Roedd cyfraddau beicio yn debyg ar draws rhanbarthau. Roedd 15 y cant o'r ymatebwyr yn y Gogledd yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos (34 allan o 223 o ymatebwyr). Roedd hyn o'i gymharu â 14 y cant o'r ymatebwyr yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru (37 allan o 260 o ymatebwyr) a 13 y cant o'r ymatebwyr ar gyfer pob un o ranbarthau’r Canolbarth a’r Gorllewin, y Cymoedd, a Gorllewin De Cymru.[10]

---

[9] Y ffigurau wedi'u pwysoli oedd 103 allan o 486 ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd a 34 allan o 509 ar gyfer ymatebwyr benywaidd.

[10] Ar gyfer y Canolbarth/Gorllewin, y Cymoedd, a Gorllewin De Cymru, y ffigurau pwysoledig oedd 22 allan o 173, 21 allan o 168, a 22 allan o 175 o ymatebwyr yn y drefn honno.

Ffigur 3.2 Cyfraddau teithio llesol yn ôl rhywedd




| | |
|---|---|
| Walk or Run (Male) | Cerdded neu redeg (gwrywaidd) |
| Walk or Run (Female) | Cerdded neu redeg (benywaidd) |
| | |
| Weighted Base: 995 (All), 486 (Male), 509 (Female). | **Sylfaen wedi'i phwysoli**: 995 (Pawb), 486 (Gwrywaidd), 509 (Benywaidd). |
| | |
| 7 Days a Week | 7 diwrnod yr wythnos |
| 5-6 Days a Week | 5-6 diwrnod yr wythnos |
| 2-4 Days a Week | 2-4 diwrnod yr wythnos |
| Once a Week | Unwaith yr wythnos |
| Once a Fortnight | Unwaith y pythefnos |
| Once a Month | Unwaith y mis |


| | |
|---|---|
| Less Often | Llai aml |
| Never | Byth |

*Rhesymau dros deithio*

3.10 Roedd nifer isel o ymatebwyr yn beicio ar gyfer siwrneiau at bob diben (roedd 3 y cant o'r holl ymatebwyr yn beicio i'r gwaith neu leoliad addysg; roedd 2 y cant o'r holl ymatebwyr yn beicio i fynd i siopa, gwneud teithiau cysylltiedig ag iechyd, ac am resymau busnes personol (e.e. i fynd i'r siop trin gwallt); roedd 3 y cant o'r holl ymatebwyr yn beicio i ymweld â ffrindiau a theulu).

3.11 O'i gymharu â beicio, roedd canran uwch o'r ymatebwyr yn cerdded neu'n rhedeg ar gyfer yr un diben teithio. Y diben teithio mwyaf poblogaidd oedd cerdded neu redeg i ymweld â ffrindiau a theulu (27%). Y daith leiaf poblogaidd ond un i'w cherdded neu ei rhedeg oedd cymudo i'r gwaith neu leoliad addysg (13%).

Ffigur 3.3 Teithio llesol yn ôl diben y daith



| | |
|---|---|
| Walk/Run (All Respondents Base: 1,000) | Cerdded/rhedeg (Sylfaen Pob Ymatebydd: 1,000) |
| Cycle (All Respondents Base: 1,000) | Beicio (Sylfaen Pob Ymatebydd: 1,000) |
| | |
| Journey Reason | Rheswm dros y daith |
| | |
| Commute to or for Work/Education (Other than taking children to school) | Cymudo i'r gwaith neu addysg (ar wahân i fynd â phlant i'r ysgol) |
| Taking children to school | Mynd â phlant i / o’r ysgol |
| Shopping, personal business, health | Siopa, materion personol, iechyd |
| Visiting Friends and Family/Going Out | Ymweld â ffrindiau a theulu / mynd allan |
| Taking/Accompanying Other People | Mynd â / mynd gyda phobl eraill |

**Sut mae dewisiadau Teithio Llesol wedi newid?**


3.12 Ar gyfer pob dull teithio, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn gwneud mwy ynteu llai ohono ym mis Mehefin 2022 o gymharu â thair blynedd ynghynt. Roedd atebion ymatebwyr yn seiliedig ar eu hatebion eu hunain yn hytrach na dadansoddi data dros gyfnod o dair blynedd.

3.13 Ar y cyfan, roedd mwy o ymatebwyr yn dweud eu bod yn cerdded ac yn rhedeg (41 y cant) neu'n beicio (26 y cant) 'tua'r un fath' o'i gymharu â'r ymatebwyr hynny a nododd eu bod naill ai'n gwneud ynteu mwy neu lai o deithiau teithio llesol drwy’r dulliau hyn.

*Cerdded*

3.14 O ran dulliau teithio llesol, dywedodd 34 y cant o'r holl ymatebwyr eu bod yn cerdded neu'n rhedeg mwy ym mis Mehefin 2022 o'i gymharu â thair blynedd ynghynt.

Ffigur 3.4 Cyfraddau teithio llesol ym mis Mehefin 2022 o'i gymharu â thair blynedd ynghynt




| | |
|---|---|
| Cycle (All Respondents Base: 1,000) | Beicio (Sylfaen Pob Ymatebydd: 1,000) |
| Walk or Run (All Respondents Base: 1,000) | Cerdded neu redeg (Sylfaen Pob Ymatebydd: 1,000) |
| | |
| Not Applicable | Amherthnasol |
| A Lot Less | Llawer llai |
| A Little Less | Ychydig llai |
| About the Same | Tua'r un fath |
| A Little More | Ychydig yn fwy |
| A Lot More | Llawer mwy |

3.15 O ran canran, nododd mwy o ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed (45 y cant) eu bod yn cerdded neu'n rhedeg mwy o'i gymharu â'r rhai 35 oed a hŷn (28 y cant).[11]

3.16 Roedd ymatebwyr benywaidd (36 y cant) yn cerdded neu'n rhedeg mwy o ran canran o'i gymharu ag ymatebwyr gwrywaidd (31 y cant).[12]


3.17 Yn rhanbarthol, roedd canran uwch o ymatebwyr o Orllewin De Cymru (28 y cant) yn cerdded neu'n rhedeg llai o'i gymharu ag ymatebwyr o ranbarthau eraill. Yn y Gogledd cofnodwyd y gostyngiad lleiaf (11 y cant) ac yna Caerdydd a De-ddwyrain Cymru (16 y cant), y Canolbarth a'r Gorllewin (18 y cant), a'r Cymoedd (21 y cant).[13]

Tabl 3.3 Cyfraddau teithio llesol yn ôl rhanbarth[14]

| Rhanbarth | Y Gogledd | Canolbarth/ Gorllewin Cymru | Gorllewin De Cymru | Y Cymoedd | Caerdydd a De-ddwyrain Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen wedi'i phwysoli (Cyfanswm = 1,000) | 223 | 173 | 168 | 175 | 260 |
| Llawer mwy | 16% | 13% | 13% | 11% | 19% |
| Ychydig yn fwy | 20% | 17% | 17% | 22% | 18% |
| Tua'r un fath | 46% | 40% | 36% | 42% | 38% |
| Ychydig llai | 7% | 7% | 11% | 7% | 9% |
| Llawer llai | 4% | 11% | 17% | 14% | 7% |
| Amherthnasol | 7% | 12% | 6% | 5% | 8% |

[11] Y ffigurau priodol oedd 133 allan o 293 ar gyfer ymatebwyr 16 i 34 oed a 203 allan o 707 ar gyfer ymatebwyr 35 oed a throsodd.
[12] Y ffigurau priodol ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd oedd 151 allan o 486 o ymatebwyr a 183 allan o 509 o ymatebwyr.
[13] Y ffigurau yw 47 allan o 168 o ymatebwyr ar gyfer Gorllewin De Cymru, 24 allan o 223 ar gyfer y Gogledd, 41 allan o 260 ar gyfer Caerdydd a'r De-ddwyrain, 32 allan o 173 ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin, a 36 allan o 175 ar gyfer y Cymoedd.
[14] Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i 100 oherwydd talgrynnu.

Ffigur 3.5 Mwy neu lai o deithio llesol yn ôl rhywedd




| | |
|---|---|
| Cycling (Female) | Beicio (benywaidd) |
| Cycling (Male) | Beicio (gwrywaidd) |
| Walk/Run (Female) | Cerdded/rhedeg (benywaidd) |
| Walk/Run (Male) | Cerdded/rhedeg (gwrywaidd) |
| | |
| Weighted Base: 995 (All), 486 (Male), 509 (Female). | **Sylfaen wedi'i phwysoli**: 995 (Pawb), 486 (Gwrywaidd), 509 (Benywaidd). |
| | |
| Not Applicable | Amherthnasol |
| A Lot Less | Llawer llai |
| A Little Less | Ychydig llai |
| About the Same | Tua'r un fath |
| A Little More | Ychydig yn fwy |

| | |
|---|---|
| A Lot More | Llawer mwy |

*Beicio*

3.18 Ym mis Mehefin 2022, dywedodd 11 y cant o'r holl ymatebwyr eu bod yn beicio mwy o'i gymharu â thair blynedd ynghynt, tra bod 14 y cant yn beicio llai.

3.19 Dywedodd bron i hanner yr holl ymatebwyr (49 y cant) fod beicio’n 'amherthnasol' oherwydd nad oeddent wedi defnyddio'r dull hwn o deithio am o leiaf tair blynedd.

3.20 Ar gyfer pob categori oedran, dywedodd mwy o ymatebwyr eu bod yn beicio llai nag yr oeddent dair blynedd ynghynt o'i gymharu â'r ymatebwyr a nododd eu bod yn beicio mwy. Er enghraifft, nododd 18 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed (51 allan o 293 o ymatebwyr) eu bod yn beicio mwy o'i gymharu â 23 y cant o'r ymatebwyr yn yr un categori oedran (68 allan o 293 o ymatebwyr) a nododd eu bod yn beicio llai.

3.21 Cofnodwyd gostyngiadau hefyd ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd (18 a 9 y cant yn y drefn honno).[15]

**Pam mae trefniadau teithio llesol wedi newid?**


3.22 Gofynnwyd i ymatebwyr a nododd eu bod naill ai’n teithio mwy neu’n teithio llai mewn unrhyw fodd ym mis Mehefin 2022 roi rheswm dros y newid yn eu harferion teithio.[16] Nid yw data'r arolwg yn nodi sut y newidiodd trefniadau teithio yn ôl dulliau teithio penodol.

3.23 COVID-19 oedd prif benderfynydd newidiadau i drefniadau teithio ymatebwyr.[17] Dywedodd 31 y cant o'r holl ymatebwyr fod eu hamgylchiadau gwaith neu addysg wedi newid oherwydd COVID-19, ac roedd hyn yn effeithio ar eu trefniadau teithio.

[15] Roedd y ffigurau perthnasol ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd yn 89 allan o 486 o ymatebwyr (gwrywaidd) a 47 allan o 509 o ymatebwyr (benywaidd).
[16] Mae'r data canlynol yn seiliedig ar sampl wedi'i phwysoli o 770 o ymatebwyr a nododd eu bod yn gwneud mwy neu lai o deithiau mewn unrhyw fodd ym mis Mehefin 2022 o'i gymharu â thair blynedd ynghynt. Gallai ymatebwyr roi mwy nag un rheswm dros newidiadau i'w trefniadau teithio sy'n golygu bod swm yr ymatebion yn fwy na 100 y cant.
[17] Nid yw'r arolwg yn nodi'r hyn a olygir gan effaith COVID-19 ar drefniant teithio ymatebwyr.

3.24 Ar ôl effaith COVID-19 ar amgylchiadau gwaith neu addysg ymatebwyr, cyfeiriwyd at newidiadau i iechyd ymatebwyr (24 y cant) ac amgylchiadau teuluol (22 y cant) fel y ddau brif ffactor nesaf sy'n effeithio ar eu trefniadau teithio.

Ffigur 3.6 Rhesymau dros newidiadau i drefniadau teithio ymatebwyr




| | |
|---|---|
| Don't know | Ddim yn gwybod |
| Other reasons | Arall (nodwch) |
| I choose to travel differently for environmental reasons | Dewisais deithio mewn modd arall oherwydd rhesymau amgylcheddol |
| I choose to travel differently for health reasons | Dewisais deithio mewn modd arall oherwydd rhesymau iechyd |
| Other personal circumstances have changed | Mae amgylchiadau personol eraill wedi newid |

| | |
|---|---|
| I choose to travel differently for financial reasons | Dewisais deithio mewn modd arall oherwydd rhesymau ariannol |
| My work / education circumstances have changed for another reason | Mae fy amgylchiadau gwaith / addysg wedi newid am reswm arall |
| My family circumstances have changed | Mae fy amgylchiadau teuluol wedi newid |
| My health has changed | Mae fy iechyd wedi newid |
| My work / education circumstances have changed due to Covid | Mae fy amgylchiadau gwaith / addysg wedi newid o ganlyniad i Covid |

3.25 Cyfeiriwyd at ddewisiadau eraill, fel rhesymau amgylcheddol (11 y cant) neu resymau iechyd (17 y cant), gan lai o ymatebwyr fel rhesymau dros newidiadau i'w trefniadau teithio.

3.26 O'i gymharu â'r ymatebwyr yng ngraddau cymdeithasol C2DE (21 y cant), nododd canran uwch o'r ymatebwyr yng ngraddau cymdeithasol ABC1 (41 y cant) eu bod naill ai wedi teithio mwy neu deithio llai yn ôl dulliau penodol oherwydd bod COVID-19 wedi effeithio ar eu trefniadau gwaith ac addysg.[18]

3.27 Dywedodd canran uwch o ymatebwyr benywaidd (27 y cant) fod newidiadau i'w hamgylchiadau teuluol wedi effeithio ar eu trefniadau teithio o gymharu ag ymatebwyr gwrywaidd (16 y cant).[19]

3.28 Dywedodd canran uwch o bobl dros 65 oed eu bod wedi dewis newid eu trefniadau teithio oherwydd rhesymau iechyd (25 y cant) a rhesymau amgylcheddol (15 y cant) o'i gymharu ag ymatebwyr mewn grwpiau oedran iau (32 a 19 allan o 130 o ymatebwyr yn y drefn honno). Ymhlith yr ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed, dywedodd 10 y cant eu bod yn teithio'n wahanol oherwydd rhesymau iechyd, a dim ond 7 y cant a ddywedodd eu bod yn teithio'n wahanol oherwydd rhesymau amgylcheddol (11 a 7 allan o 110 o'r ymatebwyr yn y drefn honno).

[18] Y ffigurau priodol ar gyfer ymatebwyr yng ngraddau cymdeithasol ABC1 a C2DE oedd 162 allan o 396 (ABC1) a 79 allan o 375 (C2DE).
[19] Y ffigurau priodol ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd oedd 62 allan o 377 (gwrywaidd) a 105 allan o 389 (benywaidd).

Tabl 3.4 Rhesymau dros newidiadau i drefniadau teithio ymatebwyr yn ôl oedran[20]

| Oedran | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen wedi'i phwysoli (Cyfanswm = 770). | 110 | 150 | 175 | 70 | 135 | 130 |
| Mae fy amgylchiadau gwaith / addysg wedi newid o ganlyniad i Covid | 44% | 36% | 37% | 36% | 24% | 12% |
| Mae fy iechyd wedi newid | 20% | 15% | 21% | 27% | 37% | 28% |
| Mae fy amgylchiadau teuluol wedi newid | 20% | 32% | 25% | 22% | 17% | 12% |
| Mae fy amgylchiadau gwaith / addysg wedi newid o ganlyniad i Covid | 29% | 22% | 23% | 19% | 14% | 12% |
| Dewisais deithio mewn modd arall oherwydd rhesymau ariannol | 20% | 20% | 19% | 13% | 25% | 15% |
| Mae amgylchiadau personol eraill wedi newid | 20% | 16% | 15% | 6% | 24% | 21% |
| Dewisais deithio mewn modd arall oherwydd rhesymau iechyd | 10% | 17% | 15% | 18% | 17% | 25% |
| Dewisais deithio mewn modd arall oherwydd rhesymau amgylcheddol | 7% | 14% | 8% | 10% | 13% | 15% |
| Arall (nodwch) | 0% | 3% | 4% | 1% | 0% | 6% |
| Ddim yn gwybod | 5% | 2% | 5% | 3% | 3% | 14% |

**Hunan-adrodd yr ymatebwyr ynghylch teithio llesol**

3.29 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddisgrifio eu hunain mewn perthynas â theithiau teithio llesol.


*Cerdded*

3.30 Dywedodd tua phedwar o bob deg o'r holl ymatebwyr (42 y cant) eu bod yn rhywun sy'n 'cerdded yn rheolaidd' wrth deithio i gyrchfan benodol neu i ddal trafnidiaeth gyhoeddus. Dywedodd 14 y cant o'r holl ymatebwyr eu bod 'ddim yn cerdded ond

[20] Nid yw'r ffigurau'n cyfateb i 100 y cant oherwydd bod y data hwn yn deillio o gwestiwn amlddewis.

yn dymuno gwneud’. Dim ond 7 y cant o'r holl ymatebwyr a ddywedodd eu bod 'ddim yn cerdded a ddim yn dymuno gwneud’.

Ffigur 3.7 Hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynghylch cerdded fel math o deithio llesol




| All Respondents (Base: 1,000) | Pob Ymatebydd (Sylfaen: 1,000) |
|---|---|
| regularly walks | yn cerdded yn rheolaidd |
| occasionally walks | yn cerdded weithiau |
| is new or returning to walk | yn newydd neu’n dychwelyd at gerdded |
| does not walk but would like to | ddim yn cerdded ond yn dymuno gwneud |
| does not walk and does not want to | ddim yn cerdded a ddim yn dymuno gwneud |

3.31 Nid yw'n ymddangos bod oedran wedi effeithio ar hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynglŷn â cherddded. Er enghraifft, roedd 44 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed yn disgrifio eu hunain fel rhywun sy'n cerdded yn rheolaidd o'i gymharu â 46 y cant o'r ymatebwyr 65 oed a hŷn a ddisgrifiodd eu hunain yn yr un modd.[21]

[21] Y ffigurau perthnasol ar gyfer ymatebwyr yn y categorïau oedran hyn yw 53 allan o 119 (ymatebwyr 16 i 24 oed) ac 87 allan o 188 (ymatebwyr 65 oed a hŷn).

3.32 O'i gymharu ag ymatebwyr gwrywaidd (9 y cant), o ran canran mae bron i ddwywaith cymaint o ymatebwyr benywaidd (18 y cant) yn disgrifio eu hunain fel rhywun sydd 'ddim yn cerdded ond yn dymuno gwneud'.[22] I'r gwrthwyneb, roedd bron i ddwywaith cymaint o ymatebwyr gwrywaidd (10 y cant) yn disgrifio eu hunain fel rhywun sydd 'ddim yn cerdded a ddim yn dymuno gwneud' o'i gymharu ag ymatebwyr benywaidd (5).[23]

3.33 Yn rhanbarthol, dim ond 29 y cant o'r ymatebwyr yng Ngorllewin De Cymru a ddisgrifiodd eu hunain fel pobl sy'n cerdded yn rheolaidd o'i gymharu â chyfartaledd o 45 y cant o'r ymatebwyr o'r rhanbarthau eraill a ddisgrifiodd eu hunain yn yr un modd.

*Beicio*

3.34 Disgrifiodd llai o ymatebwyr eu hunain fel rhywun sy'n beicio i gyrchfan benodol neu i ddal trafnidiaeth gyhoeddus. Disgrifiodd llai nag un o bob deg ymatebydd (4 y cant) eu hunain fel pobl sy'n 'beicio'n rheolaidd'. Mewn cyferbyniad, dywedodd 46 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn rhywun sydd 'ddim yn beicio a ddim yn dymuno gwneud.' Wedi dweud hynny, roedd tua thri o bob deg ymatebydd (29 y cant) yn disgrifio'u hunain fel rhywun sydd 'ddim yn beicio ond yn dymuno gwneud'.


3.35 Roedd gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau o ran hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynghylch beicio. Dim ond 1 y cant o'r ymatebwyr 55 oed a hŷn a ddisgrifiodd eu hunain fel beicwyr 'rheolaidd' (5 allan o 381 o ymatebwyr). Roedd 60 y cant o'r ymatebwyr 55 oed a hŷn yn disgrifio'u hunain fel rhywun sydd 'ddim yn beicio a ddim yn dymuno gwneud' (227 allan o 381 o ymatebwyr). Mae'r ffigur hwn yn codi i 70 y cant ar gyfer yr ymatebwyr 65 oed a hŷn (131 allan o 188 o ymatebwyr).

3.36 Roedd ymateb y cyfranogwyr iau yn fwy cymysg. Disgrifiodd 33 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed eu hunain fel rhywun sydd 'ddim yn beicio ond yn dymuno gwneud' (39 allan o 113 o ymatebwyr). Roedd 24 y cant o'r ymatebwyr yn

[22] Y ffigurau perthnasol ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd oedd 91 allan o 509 (benywaidd) a 45 allan o 486 (gwrywaidd).
[23] Y ffigurau perthnasol ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd oedd 47 allan o 486 (gwrywaidd) a 27 allan o 509 (benywaidd).

y categori hwn yn disgrifio eu hunain fel rhywun sy'n 'beicio weithiau' (29 allan o 113 o ymatebwyr).

Ffigur 3.8 Hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynghylch beicio fel math o deithio llesol




| All Respondents (Base: 1,000) | Pob Ymatebydd (Sylfaen: 1,000) |
|---|---|
| regularly cycles | yn beicio'n rheolaidd |
| occasionally cycles | yn beicio weithiau |
| is new or returning to cycling | yn newydd neu'n dychwelyd at feicio |
| does not cycle but would like to | ddim yn beicio ond yn dymuno gwneud |
| does not cycle and does not want to | ddim yn beicio a ddim yn dymuno gwneud |

3.37 Roedd 34 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed yn disgrifio eu hunain fel rhywun sydd 'ddim yn beicio a ddim yn dymuno gwneud' (99 allan o 293 o ymatebwyr). O ran canran, mae hyn bron hanner nifer yr ymatebwyr 55 oed a hŷn a ddisgrifiodd eu hunain yn yr un modd (227 allan o 381 o ymatebwyr).


3.38 Roedd rhai gwahaniaethau nodedig ymhlith ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd. O'i gymharu ag ymatebwyr gwrywaidd, roedd canran uwch o ymatebwyr benywaidd (53 y cant) yn disgrifio eu hunain fel rhywun sydd 'ddim yn beicio a ddim yn dymuno gwneud'. Roedd 38 y cant o'r ymatebwyr gwrywaidd wedi rhoi eu

hunain yn y categori hwn.[24] O ran canran, roedd tair gwaith cymaint o ymatebwyr gwrywaidd (6 y cant) yn disgrifio eu hunain fel pobl sy'n beicio'n rheolaidd o'i gymharu ag ymatebwyr benywaidd (2).[25]

Tabl 3.5 Hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynghylch beicio a theithio llesol yn ôl oedran[26]

| A fyddech chi'n dweud eich bod chi'n rhywun sydd | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen wedi'i phwysoli (Cyfanswm = 999) | 119 | 174 | 215 | 110 | 193 | 188 |
| ddim yn beicio a ddim yn dymuno gwneud | 27% | 38% | 42% | 39% | 50% | 70% |
| ddim yn beicio ond yn dymuno gwneud | 33% | 35% | 32% | 33% | 26% | 18% |
| yn newydd neu'n dychwelyd at feicio | 9% | 9% | 6% | 14% | 7% | 3% |
| yn beicio weithiau | 24% | 12% | 13% | 12% | 15% | 9% |
| yn beicio'n rheolaidd | 6% | 6% | 6% | 3% | 3% | 0% |

Ffigur 3.9 Hunan-ddisgrifiad ymatebwyr ynghylch teithio llesol yn ôl rhywedd




---

[24] Y nifer perthnasol o ymatebwyr benywaidd a gwrywaidd oedd 272 allan o 509 (benywaidd) a 187 allan 486 (gwrywaidd).

[25] Roedd nifer yr ymatebwyr benywaidd a gwrywaidd yn 10 allan o 509 (benywaidd) a 28 allan o 486 (gwrywaidd).

[26] Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i 100 oherwydd talgrynnu.

| | |
|---|---|
| Female Respondents | Ymatebwyr benywaidd |
| Male Respondents | Ymatebwyr gwrywaidd |
| | |
| Weighted Base: 995 (All), 486 (Male), 509 (Female). | Sylfaen wedi'i phwysoli: 995 (Pawb), 486 (Gwrywaidd), 509 (Benywaidd). |
| regularly walks | yn cerdded yn rheolaidd |
| occasionally walks | yn cerdded weithiau |
| is new or returning to walk | yn newydd neu'n dychwelyd at gerdded |
| does not walk and does not want to | ddim yn cerdded a ddim yn dymuno gwneud |
| does not walk but would like to | ddim yn cerdded ond yn dymuno gwneud |
| regularly cycles | yn beicio'n rheolaidd |
| occasionally cycles | yn beicio weithiau |
| is new or returning to cycling | yn newydd neu'n dychwelyd at feicio |
| does not cycle but would like to | ddim yn beicio ond yn dymuno gwneud |
| does not cycle and does not want to | ddim yn beicio a ddim yn dymuno gwneud |

**Argraffiadau am Deithio Llesol**

3.39 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hargraffiadau am deithio llesol yn eu hardal leol.

3.40 Dywedodd 51 y cant o'r holl ymatebwyr eu bod wedi sylwi ar fwy o bobl yn cerdded a/neu feicio yn eu hardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, o ran canran nododd llai o ymatebwyr fod gwelliannau wedi bod yn eu hardal leol i bobl a oedd eisiau beicio neu gerdded.

*Gwelliannau i bobl sydd eisiau cerdded*

3.41 Dywedodd 32 y cant o'r holl ymatebwyr fod gwelliannau wedi bod yn eu hardal leol i bobl sydd eisiau cerdded.

3.42 Dywedodd 23 y cant o'r ymatebwyr dros 55 oed fod gwelliannau wedi bod yn eu hardal leol ar gyfer pobl sydd eisiau cerdded (89 allan o 381 o ymatebwyr). Fodd

bynnag, roedd 42 y cant o'r ymatebwyr 55 oed a hŷn yn anghytuno â'r farn hon (158 allan o 381 o ymatebwyr).

3.44 Roedd y farn yn fwy cyfartal ymhlith pobl iau. Ymhlith yr ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed, roedd 36 y cant o'r farn bod gwelliannau wedi bod yn eu hardal leol ar gyfer pobl sydd eisiau cerdded o'i gymharu â 31 y cant a oedd yn anghytuno â'r farn hon (107 a 91 allan o 293 o ymatebwyr yn y drefn honno).

3.44 Dywedodd 41 y cant o'r ymatebwyr â phlant oed ysgol fod gwelliannau wedi bod i bobl sydd eisiau cerdded yn eu hardal leol o'i gymharu â 28 y cant o'r ymatebwyr heb blant oedran ysgol a oedd yn meddwl yr un peth (117 allan o 286 a 202 allan o 714 o ymatebwyr yn y drefn honno).

Tabl 3.6 Barn yr ymatebwyr ar deithio llesol yn eu hardal leol[27]

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae gwelliannau wedi bod yn fy ardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer pobl sydd eisiau cerdded, er enghraifft palmentydd lletach, croesfannau newydd, gostwng palmentydd | 9% | 23% | 26% | 23% | 12% | 7% |
| Mae gwelliannau wedi bod yn fy ardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer pobl sydd eisiau beicio, er enghraifft llwybrau a thraciau beicio newydd, mannau parcio beiciau, arwyddion, llogi beiciau ar y stryd | 10% | 28% | 25% | 17% | 10% | 9% |
| Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi sylwi bod mwy o bobl yn cerdded a/neu feicio yn fy ardal leol | 13% | 38% | 24% | 13% | 6% | 6% |
| Mae'r cyngor wedi gofyn am farn y cyhoedd ar gynlluniau ar gyfer llwybrau beicio a cherdded neu i wella llwybrau | 6% | 18% | 26% | 19% | 16% | 15% |
| Rwy'n gwybod ble y gallaf ddod o hyd i wybodaeth am lwybrau cerdded a beicio yn fy ardal leol | 9% | 23% | 24% | 20% | 12% | 11% |

[27] Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i 100 y cant oherwydd talgrynnu rhifyddol.

Tabl 3.7 Barn yr ymatebwyr ar welliannau i bobl sydd eisiau cerdded yn eu hardal leol yn ôl oedran[28]

| Mae gwelliannau wedi bod yn fy ardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer pobl sydd eisiau cerdded, er enghraifft palmentydd lletach, croesfannau newydd, gostwng palmentydd | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen wedi'i phwysoli (Cyfanswm = 999) | 119 | 174 | 215 | 110 | 193 | 188 |
| Cytuno'n gryf | 13% | 12% | 17% | 5% | 5% | 1% |
| Cytuno | 25% | 24% | 27% | 20% | 19% | 21% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 32% | 22% | 20% | 35% | 29% | 24% |
| Anghytuno | 15% | 26% | 23% | 18% | 27% | 25% |
| Anghytuno'n gryf | 10% | 9% | 8% | 19% | 12% | 19% |
| Ddim yn gwybod | 6% | 7% | 6% | 3% | 8% | 9% |

*Gwelliannau i bobl sydd eisiau beicio*

3.47 O ran canran, roedd llai o ymatebwyr 55 oed a hŷn yn cytuno â'r farn y bu gwelliannau i bobl sydd eisiau beicio yn eu hardal leol o'i gymharu ag ymatebwyr iau. Roedd 32 y cant o'r ymatebwyr 55 oed a hŷn yn cytuno â'r farn hon o'i gymharu â 40 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed (123 allan o 381 o ymatebwyr a 118 allan o 293 o ymatebwyr yn y drefn honno).

3.48 Dywedodd 45 y cant o'r ymatebwyr â phlant oedran ysgol fod gwelliannau wedi bod yn eu hardal leol i bobl sydd eisiau beicio o'i gymharu â 35 y cant o'r ymatebwyr heb blant oedran ysgol (129 allan o 286 o ymatebwyr a 253 allan o 714 o ymatebwyr yn y drefn honno).

[28] Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i 100 y cant oherwydd talgrynnu rhifyddol.

*Ymgynghori a Mynediad at Wybodaeth am Deithio Llesol*

3.49 Yn gyffredinol, roedd 24 y cant o'r holl ymatebwyr yn cytuno â'r farn bod y cyngor wedi gofyn am farn y cyhoedd ar gynlluniau ar gyfer llwybrau beicio a cherdded newydd, neu gynlluniau i wella llwybrau yn eu hardal leol. Fodd bynnag, roedd mwy o ymatebwyr yn anghytuno â'r farn hon (35 y cant).

Tabl 3.8 Barn yr ymatebwyr ar welliannau i bobl sydd eisiau beicio yn eu hardal leol

| Mae gwelliannau wedi bod yn fy ardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer pobl sydd eisiau beicio, er enghraifft llwybrau a thraciau beicio newydd, mannau parcio beiciau, arwyddion, llogi beiciau ar y stryd | 16-24 | 25-34 | 35-44 | 45-54 | 55-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sylfaen wedi'i phwysoli (Cyfanswm = 999) | 119 | 174 | 215 | 110 | 193 | 188 |
| Cytuno’n gryf | 15% | 9% | 13% | 9% | 10% | 8% |
| Cytuno | 24% | 33% | 36% | 22% | 26% | 21% |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 30% | 25% | 19% | 34% | 21% | 27% |
| Anghytuno | 17% | 19% | 15% | 16% | 21% | 16% |
| Anghytuno’n gryf | 8% | 7% | 10% | 16% | 11% | 12% |
| Ddim yn gwybod | 6% | 8% | 7% | 3% | 11% | 17% |

3.50 Roedd gwahaniaethau nodedig ymhlith yr ymatebwyr a oedd â barn gref ar fater ymgynghori. Dim ond 6 y cant o'r holl ymatebwyr a oedd yn 'cytuno'n gryf' gyda'r farn bod eu cyngor lleol wedi gofyn am farn y cyhoedd ar gynlluniau ar gyfer llwybrau beicio a cherdded newydd, neu gynlluniau i wella llwybrau. Mewn cymhariaeth, nododd mwy na dwywaith cymaint o ymatebwyr (16 y cant) eu bod yn 'anghytuno'n gryf' â'r farn hon.

3.51 Roedd gwahaniaethau barn nodedig ymhlith ymatebwyr o wahanol oedrannau hefyd.

3.52 Roedd 45 y cant o'r ymatebwyr rhwng 45 a 54 oed yn anghytuno â'r farn bod y cyngor wedi gofyn am farn y cyhoedd ar gynlluniau ar gyfer llwybrau beicio a

cherdded newydd, neu gynlluniau i wella llwybrau (49 allan o 110 o ymatebwyr). Mewn cymhariaeth, dim ond 16 y cant o'r ymatebwyr yn y categori oedran hwn oedd yn cytuno â'r farn bod y cyngor lleol wedi ymgynghori â'r cyhoedd (18 allan o 110 o ymatebwyr). Cafwyd safbwyntiau tebyg gan ymatebwyr 65 oed a hŷn ar ymgynghori (roedd 19 y cant yn cytuno a 35 y cant yn anghytuno).[29]


3.53 Mewn cymhariaeth, nododd canran uwch o ymatebwyr iau fod eu cyngor lleol wedi ceisio barn y cyhoedd. Roedd 37 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed yn cytuno â'r farn bod y cyngor wedi gofyn am farn y cyhoedd ar gynlluniau ar gyfer llwybrau beicio a cherdded newydd, neu gynlluniau i wella llwybrau (44 allan o 119 o ymatebwyr). Roedd 27 y cant o'r ymatebwyr yng nghategori 16 i 24 oed yn anghytuno â'r farn bod y cyngor lleol wedi ymgynghori â'r cyhoedd ar lwybrau teithio llesol (33 allan o 119 o ymatebwyr).

3.54 Roedd gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau hefyd i'w gweld o ran barn ymatebwyr ar fynediad at wybodaeth am lwybrau cerdded a beicio.

3.55 Dim ond 2 y cant o'r ymatebwyr 65 oed a hŷn a oedd yn cytuno'n gryf â'r farn eu bod yn gwybod ble y gallent ddod o hyd i wybodaeth am lwybrau cerdded a beicio (5 allan o 188 o ymatebwyr). Ar y llaw arall, roedd 13 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed yn 'cytuno'n gryf' gyda'r farn eu bod yn gwybod ble y gallant ddod o hyd i wybodaeth am lwybrau cerdded a beicio (39 allan o 293 o ymatebwyr).

[29] Allan o gyfanswm o 188 o ymatebwyr 65 oed a hŷn, roedd 35 yn cytuno a 65 yn anghytuno.

Ffigur 3.10 Barn yr ymatebwyr ar ymgynghori gan y Cyngor ynghylch llwybrau beicio yn eu hardal leol




Sylfaen: 1,000
(Pob Ymatebydd)

| | |
|---|---|
| Disagree (All Respondents) | Anghytuno (Pob Ymatebydd) |
| Agree (All Respondents) | Cytuno (Pob Ymatebydd) |

**Pa fesurau fyddai'n hyrwyddo teithio llesol?**

*Cerdded*

3.56 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio defnyddioldeb mesurau penodedig o safbwynt y graddau y byddent yn helpu ymatebwyr i gerdded mwy (gweler cwestiwn 5 yn Atodiad B).

3.57 Roedd y mesurau a nodwyd gan ymatebwyr fel rhai 'defnyddiol' i'w helpu i gerdded mwy yn cynnwys:

- Llwybrau wedi’u cynnal a’u cadw yn dda (78 y cant).
- Llwybrau harddach ar hyd strydoedd (77 y cant).
- Mwy o gyrchfannau yn agosach i gartref (74 y cant).
- Iechyd meddwl / corfforol gwell (75 y cant).

3.58 Y mesur a nodwyd gan y ganran fwyaf o ymatebwyr (40 y cant) fel un 'ddim yn ddefnyddiol iawn' neu 'ddim yn ddefnyddiol o gwbl' oedd cyflymderau arafach ar ffyrdd.[30] Y mesur nesaf a nodwyd gan ymatebwyr yn yr un modd oedd llai o gerbydau modur ar y strydoedd: nododd 33 y cant o'r ymatebwyr fod y mesur hwn naill ai 'ddim yn ddefnyddiol iawn' neu 'ddim yn ddefnyddiol o gwbl'.

3.59 Roedd yn amlwg bod llai o ymatebwyr rhwng 45 a 54 oed wedi disgrifio unrhyw un o'r mesurau a awgrymwyd fel rhai 'defnyddiol'. Er enghraifft, o'i gymharu â chategorïau oedran eraill, nododd canran lai o ymatebwyr rhwng 45 a 54 oed y byddai llai o gerbydau modur ar y strydoedd (45 y cant), cyflymderau arafach (41 y cant), a llai o geir wedi parcio ar y palmant (52 y cant) yn ddefnyddiol o ran eu helpu i gerdded mwy.[31] Ar gyfer ymatebwyr yng nghategori oedran 25 i 34, y ffigurau cyfatebol ar gyfer y mesurau hyn oedd 57 y cant, 48 y cant, a 68 y cant.[32]

*Beicio*

3.60 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio defnyddioldeb mesurau penodedig o safbwynt y graddau y byddent yn helpu ymatebwyr i ddechrau beicio neu feicio mwy (gweler cwestiwn pump yn Atodiad B).

3.61 Ni nodwyd yr un ffactor unigol gan ymatebwyr fel un tyngedfennol o ran annog ymatebwyr i ddechrau beicio neu i feicio mwy.

3.62 Nododd mwy na 50 y cant o'r ymatebwyr fod pob un o'r ffactorau canlynol yn rhai 'defnyddiol' wrth annog ymatebwyr i feicio neu i feicio mwy:

- Mwy o draciau beic ar hyd ffyrdd sydd wedi eu gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr (51 y cant).
- Mwy o lwybrau beicio heb draffig sydd ymhell oddi wrth ffyrdd (54 y cant).
- Mwy o lwybrau beicio lleol gydag arwyddion (50 y cant).

---

[30] Cynhaliwyd yr arolwg teithio llesol ar gyfer Omnibws Cymru ym mis Mehefin 2022 cyn cyflwyno'r terfyn o 20 mya ar ffyrdd cyfyngedig yn genedlaethol yng Nghymru.
[31] O'r 110 o ymatebwyr rhwng 45 a 54 oed, y ffigurau perthnasol ar gyfer y datganiadau hyn oedd 49 (llai o gerbydau modur), 45 (cyflymder arafach) a 57 (llai o geir wedi'u parcio).
[32] O'r 215 o ymatebwyr rhwng 25 a 34 oed, y ffigurau perthnasol ar gyfer y datganiadau hyn oedd 99 (llai o gerbydau modur), 48 (cyflymder arafach), a 68 (llai o geir wedi'u parcio).

- Llwybrau beic wedi’u cynnal a’u cadw'n well (51 y cant).
- Iechyd meddwl a/neu gorfforol gwell (55 y cant).

3.63 Ymhlith gwahanol gategorïau o ymatebwyr roedd gwahaniaethau barn amlwg ar y mesurau hyn. Dim ond 35 y cant o bobl dros 55 oed (134 allan o 381 o ymatebwyr) oedd yn credu y byddai cyflymderau arafach a/neu lai o gerbydau modur yn ddefnyddiol o'i gymharu â 54 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed (159 allan o 293 o ymatebwyr).

3.64 Cafodd y gwahaniaeth barn hwn ei adlewyrchu mewn categorïau demograffig ymatebol eraill. Nododd 51 y cant o'r ymatebwyr gwrywaidd (249 allan o 486 o ymatebwyr) y byddai cyflymderau arafach a/neu lai o gerbydau modur yn ddefnyddiol o'i gymharu â 42 y cant o ymatebwyr benywaidd (215 allan o 509 o ymatebwyr). Ymhlith yr ymatebwyr sydd â phlant oedran ysgol ac sydd heb blant, dywedodd 54 y cant (gyda) a 44 y cant (heb) y byddai'r mesurau hyn yn ddefnyddiol.

3.65 Roedd ymatebwyr iau hefyd yn fwy cefnogol i fwy o lwybrau heb draffig. Dywedodd 65 y cant o'r rhai rhwng 16 a 34 oed (191 allan o 293 o ymatebwyr) y byddai'r mesur hwn yn ddefnyddiol o'i gymharu â 38 y cant o'r rhai 55 oed a hŷn (146 allan o 381 o ymatebwyr). Roedd yr ymatebwyr hynny sydd â phlant oedran ysgol yn fwy cefnogol i'r mesur hwn hefyd. Dywedodd 62 y cant o'r ymatebwyr â phlant oedran ysgol (178 allan o 286 o ymatebwyr) y byddai llwybrau heb draffig yn ddefnyddiol o'u cymharu â 50 y cant o'r rhai a gyfwelwyd sydd heb blant oedran ysgol (360 allan o 714 o ymatebwyr).


3.66 Gofynnwyd set arall o gwestiynau ynghylch beth fyddai'n gwella eu mynediad at feiciau i'r ymatebwyr a ddywedodd y byddai mynediad at feic sylfaenol neu feic ansafonol yn eu helpu i feicio mwy.[33]

3.67 Yr opsiwn mwyaf poblogaidd i'r ymatebwyr hyn oedd 'gwneud trwsio beiciau yn rhatach neu’n rhad ac am ddim a / neu gael y cyfle i ddysgu trwsio beiciau' (83 y

[33] Y ffigur o 518 yw'r cyfanswm wedi’i bwysoli o ymatebwyr a nododd y byddai mynediad i feic neu feic ansafonol yn eu helpu i feicio mwy.


cant). Yr opsiwn lleiaf poblogaidd oedd 'mynediad i fenthyciad tymor byr / beiciau llogi, megis llogi beiciau cyhoeddus ar y stryd' (67 y cant).

Ffigur 3.11 Barn yr ymatebwyr ar fesurau i'w helpu i feicio mwy



| | |
|---|---|
| Not Useful (All Respondents) | Ddim yn ddefnyddiol (Pob Ymatebydd) |
| Useful (All Respondents) | Defnyddiol (Pob Ymatebydd) |
| Better physical and/or mental health | Iechyd meddwl a/neu gorfforol gwell |
| Better links with public transport (e.g. secure cycle parking at train stations; cycle carriage on public transport) | Cyswllt gwell gyda thrafnidiaeth gyhoeddus (e.e. parcio diogel ar gyfer beiciau mewn gorsafoedd trenau; cael cludo beiciau ar drafnidiaeth gyhoeddus) |
| Access to secure cycle storage at or near home or at my destination | Mynediad i fan cadw beic diogel gartref neu'n agos at gartref neu fy nghyrchfan |
| Access to a standard bicycle | Mynediad i feic sylfaenol |
| Access to a non-standard bike, such as an electric bicycle, adapted cycle or cargo bike | Mynediad at feic ansafonol, megis beic trydan, beic wedi'i addasu neu feic cargo |
| Cycling training courses | Cyrsiau hyfforddi beicio |
| Slower speeds and /or fewer motor vehicles on roads | Cyflymder arafach a / neu lai o gerbydau modur ar ffyrdd |
| Better maintenance of cycle routes (even, clean, free of vegetation; gritted in winter) | Llwybrau beic wedi'u cynnal a'u cadw'n well (gwastad, glân, heb dyfiant; wedi eu graeanu yn ystod y gaeaf) |
| More signposted local cycle routes along quieter streets where there is less traffic | Mwy o lwybrau beic lleol gydag arwyddion ar hyd strydoedd tawelach lle mae llai o draffig |
| More traffic-free cycle routes away from roads e.g. through parks or along waterways | Mwy o lwybrau beicio heb draffig sydd ymhell oddi wrth ffyrdd e.e. drwy barciau neu ar hyd dyfrffyrdd |
| More cycle tracks along roads which are physically separated from traffic and pedestrians | Mwy o draciau beic ar hyd ffyrdd sydd wedi'u gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr |

Ffigur 3.12 Asesiad ymatebwyr o fesurau i wella mynediad i feiciau




**Sylfaen wedi'i phwysoli:** 518 (Nifer yr ymatebwyr a ddywedodd y byddai mynediad at feic neu feic ansafonol yn eu helpu i feicio mwy).

| | |
|---|---|
| Not Useful | Ddim yn ddefnyddiol |
| Useful | Defnyddiol |
| The chance to try a range of bikes and / or get advice before purchasing one | Y cyfle i drio ystod o feiciau a / neu dderbyn cyngor cyn prynu |
| Making it cheaper or free to have bikes repaired and / or having the chance to learn to repair bikes | Gwneud trwsio beiciau yn rhatach neu'n rhad ac am ddim a / neu gael y cyfle i ddysgu trwsio beiciau |
| Making it easier to buy more costly bikes through interest-free loans, or leasing options | Ei gwneud hi'n haws i brynu beiciau drytach drwy fenthyciadau heb log, neu opsiynau prydles |
| Access to short term loan / hire bikes, such as public on-street bike hire (e.g ovobikes / nextbike) | Mynediad i fenthyciad tymor byr / beiciau llogi, megis llogi beic cyhoeddus ar y stryd (e.e. ovobikes / nextbike) |
| Access to long term low-cost e-bike or other non-standard cycle hire (e.g. adapted bike or cargo bike) | Mynediad i e-feic cost isel hirdymor neu logi beic ansafonol arall (e.e. beic wedi'i addasu neu feic cargo) |

**Pa mor ddiogel oedd ymatebwyr yn teimlo yn eu hardal leol mewn perthynas â theithio llesol?**[34]

3.68 Roedd ymatebwyr yn teimlo'n fwy diogel yn cerdded yn eu cymdogaeth nag yr oeddent yn beicio ar ffyrdd lleol. Roedd 88 y cant o'r holl ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu cymdogaeth o'i gymharu â 27 y cant a oedd yn teimlo'n ddiogel yn beicio ar ffyrdd lleol.

3.69 Roedd rhai gwahaniaethau nodedig rhwng y cenedlaethau o ran teithio llesol a theimladau ymatebwyr ynghylch diogelwch.

3.70 O ran canran, roedd ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed yn teimlo'n llai diogel yn cerdded yn eu cymdogaeth o'i gymharu ag ymatebwyr 65 oed a throsodd. Roedd 76 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed (91 allan o 119 o ymatebwyr) yn cytuno â'r farn eu bod yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu cymdogaeth o'i gymharu â 90 y cant o'r ymatebwyr 65 oed a hŷn (169 allan o 188 o ymatebwyr).


3.71 I’r gwrthwyneb, nododd canran uwch o ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed eu bod yn teimlo'n 'ddiogel iawn' (40 y cant) yn croesi'r ffordd o'i gymharu ag ymatebwyr 65 oed a hŷn (27 y cant).[35]

---

[34] Ar gyfer pwyntiau 3.68 i 3.76, y ffigurau ar gyfer 'diogel' a 'ddim yn ddiogel' yw'r cyfansymiau priodol ar gyfer yr ymatebwyr hynny a nododd eu bod yn teimlo 'yn ddiogel iawn' neu'n 'eithaf diogel', neu 'ddim yn ddiogel iawn' neu 'ddim yn ddiogel o gwbl’.

[35] Y ffigurau perthnasol oedd 47 allan o 119 ar gyfer ymatebwyr 16 i 24 oed a 51 allan o 188 ar gyfer ymatebwyr 65 oed a hŷn.

Ffigur 3.13Canfyddiad ymatebwyr o ddiogelwch mewn perthynas â theithio llesol yn ôl rhywedd




**Sylfaen wedi'i phwysoli:** 995 (Pawb), 486 (Gwrywaidd), 509 (Benywaidd).

| | |
|---|---|
| Safe (Male Respondents) | Diogel (Ymatebwyr Gwrywaidd) |
| Safe (Female Respondents) | Diogel (Ymatebwyr Benywaidd) |
| Unsafe (Male Respondents) | Ddim yn ddiogel (Ymatebwyr Gwrywaidd) |
| Unsafe (Female Respondents) | Ddim yn ddiogel (Ymatebwyr Benywaidd) |
| Walking | Cerdded |
| Walking my children to school | Cerdded fy mhlant i'r ysgol |
| Cycling on local roads | Beicio ar ffyrdd lleol |
| My children cycling on local roads independently | Fy mhlant yn beicio ar ffyrdd lleol ar eu pen eu hunain |
| Crossing the road | Croesi'r ffordd |
| My children crossing the road independently | Fy mhlant yn croesi'r ffordd ar eu pen eu hunain |

3.72 Yn yr un modd, dim ond 2 y cant o'r ymatebwyr rhwng 55 a 64 oed (4 allan o 193 o ymatebwyr) a nododd eu bod yn teimlo'n 'ddiogel iawn' yn beicio ar ffyrdd lleol

o'i gymharu â 23 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed (28 allan o 119 o ymatebwyr).

3.73 O ran canran, fodd bynnag, roedd ymatebwyr iau yn llai tebygol o deimlo'n ddiogel yn cerdded eu plant i'r ysgol. Dywedodd tua thri o bob deg o'r ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed (28 y cant) eu bod yn teimlo'n ddiogel yn cerdded eu plant i'r ysgol o'i gymharu â bron chwech o bob deg o'r ymatebwyr rhwng 35 a 44 oed (57 y cant).[36]

3.74 Roedd gwahaniaethau hefyd rhwng ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd. Dywedodd 48 y cant o'r ymatebwyr gwrywaidd (231 allan o 486 o ymatebwyr) eu bod yn teimlo'n 'ddiogel iawn' yn cerdded yn eu cymdogaeth o'i gymharu â 39 y cant o ymatebwyr benywaidd (199 allan o 509 o ymatebwyr). Ar y cyfan, fodd bynnag, o ran canran, nododd niferoedd cyfartal o ymatebwyr gwrywaidd a benywaidd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu cymdogaeth (88 y cant).[37]

3.75 Yn wahanol i ymatebwyr gwrywaidd, roedd ymatebwyr benywaidd yn teimlo llai diogel yn beicio ar ffyrdd lleol. Dim ond 17 y cant o'r ymatebwyr benywaidd (87 allan o 509 o ymatebwyr) a nododd eu bod yn teimlo'n ddiogel yn beicio ar ffyrdd lleol o'i gymharu â 37 y cant o'r ymatebwyr gwrywaidd (178 allan o 486 o ymatebwyr).

3.76 Dywedodd canran uwch o ymatebwyr gwrywaidd (17 y cant) eu bod yn teimlo bod eu plant yn beicio yn ddiogel ar ffyrdd lleol ar eu pen eu hunain o'u cymharu ag ymatebwyr benywaidd (10 y cant).

[36] Y ffigurau perthnasol oedd 33 allan o 119 ar gyfer ymatebwyr rhwng 16 a 24 oed a 123 allan o 215 ar gyfer ymatebwyr rhwng 35 a 44 oed.

[37] Y ffigurau perthnasol oedd 428 o ymatebwyr allan o 486 (gwrywaidd) a 446 o ymatebwyr allan o 509 (benywaidd) ymatebwyr.

# 4. Casgliadau

4.1 Roedd mwy o ymatebwyr yn cerdded ac yn rhedeg yn hytrach na beicio fel dull llesol o deithio yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2022, roedd 74 y cant o'r holl ymatebwyr yn cerdded neu'n rhedeg fel dull o deithio o leiaf unwaith yr wythnos. Ar y llaw arall, dim ond 14 y cant o'r ymatebwyr a oedd yn beicio fel dull teithio o leiaf unwaith yr wythnos.

4.2 Roedd gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau wrth ystyried cyfraddau teithio llesol. Roedd canran uwch o'r ymatebwyr iau yn cerdded, rhedeg a beicio'n amlach. Roedd 80 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed yn cerdded neu'n rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu â 69 y cant o'r rhai 55 oed hŷn a oedd yn cerdded neu'n rhedeg o leiaf unwaith yr wythnos. Roedd gwahaniaethau rhwng y cenedlaethau yn nodedig hefyd wrth ystyried beicio. Roedd 18 y cant o'r ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed yn beicio o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu â 7 y cant o'r ymatebwyr 55 oed a hŷn.

4.3 Holwyd yr ymatebwyr a oeddent yn teithio fwy neu'n teithio llai drwy ddulliau penodol ym mis Mehefin 2022 o'i gymharu â thair blynedd ynghynt. Dywedodd mwy o ymatebwyr eu bod yn cerdded ac yn rhedeg (41 y cant) neu'n beicio (26 y cant) 'tua'r un peth' o'i gymharu â'r ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod yn ymgymryd â naill ai mwy neu lai o deithiau teithio llesol trwy'r dulliau priodol hyn.

4.4 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd eu bod yn teithio mwy neu'n teithio llai mewn unrhyw fodd pam fod eu trefniadau teithio wedi newid. Nid yw'r data'n nodi sut y newidiodd trefniadau teithio ymatebwyr fesul modd. Mae'r canlyniadau'n awgrymu bod trefniadau teithio ymatebwyr yn fwy tebygol o fod wedi newid oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Roedd effaith COVID-19 ar drefniadau gwaith ac addysg ymatebwyr (31 y cant) yn effeithio ar drefniadau teithio yn fwy nag unrhyw ffactor arall.

4.5 Mewn cyferbyniad, mae'r canlyniadau'n dangos bod llai o ymatebwyr wedi gwneud dewisiadau gweithredol ynghylch eu modd o deithio. Dim ond 17 ac 11 y cant o'r holl ymatebwyr a nododd eu bod wedi dewis teithio'n wahanol am resymau iechyd ac amgylcheddol. Efallai y bydd modd casglu o hyn bod lle i ymchwilio pam y dewisodd llai o ymatebwyr deithio'n wahanol am resymau iechyd ac amgylcheddol. Mae hefyd yn awgrymu y gallai fod cyfleoedd i hyrwyddo teithio llesol oherwydd ei fanteision i

iechyd a’r amgylchedd, yn enwedig gan fod 65 y cant o'r holl ymatebwyr yn dweud y byddai iechyd meddwl a/neu gorfforol gwell yn eu hannog i gerdded a/neu feicio mwy.

4.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddisgrifio eu hunain mewn perthynas â theithiau teithio llesol. Roedd y gwahaniaethau rhwng cenedlaethau a oedd i'w gweld o ran cyfraddau teithio llesol hefyd yn amlwg o ran hunan-ddisgrifiad ymatebwyr. O'r ymatebwyr hynny nad oeddent yn beicio ar adeg yr arolwg ond a nododd eu bod yn dymuno gwneud (cyfanswm o 289 o ymatebwyr), disgrifiodd canran uwch o ymatebwyr rhwng 16 a 34 oed (34 y cant) eu hunain yn y fath fodd o gymharu ag ymatebwyr 55 oed a hŷn (22 y cant). Disgrifiodd canran uwch o ymatebwyr 55 oed a hŷn eu hunain hefyd fel pobl sydd ‘ddim yn beicio a ddim yn dymuno gwneud' (60 y cant) o'i gymharu ag ymatebwyr 16 i 34 oed (34 y cant). Mae hyn yn awgrymu y gallai fod mwy o botensial i hyrwyddo beicio fel math o deithio llesol ymhlith pobl iau.

4.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu hargraffiadau o deithio llesol yn eu hardal leol. Dywedodd mwy na hanner yr holl ymatebwyr (51 y cant) eu bod wedi sylwi ar fwy o bobl yn cerdded a/neu'n beicio yn eu hardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd llai o ymatebwyr yn cytuno â'r farn y bu gwelliannau yn eu hardal leol i bobl sy'n cerdded (32 y cant) neu'n beicio (38 y cant y cant).

4.8 Roedd gan fwy o ymatebwyr farn negyddol hefyd ynghylch ymgynghori ar deithio llesol. Roedd 34 y cant o'r holl ymatebwyr yn anghytuno â'r farn bod eu cyngor lleol wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch cynlluniau ar gyfer llwybrau teithio llesol presennol neu rai newydd. Mewn cyferbyniad, roedd 24 y cant o'r holl ymatebwyr yn cytuno bod y cyngor wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y materion hyn. Dywedodd 32 y cant o'r holl ymatebwyr nad oeddent yn gwybod ble i gael gafael ar wybodaeth am lwybrau teithio llesol yn eu hardal leol. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod rheswm dros ymchwilio i sut mae gwybodaeth am deithio llesol yn cael ei rhannu'n gyhoeddus, a sut mae'r cyhoedd yn ymwneud â'r wybodaeth hon.

4.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr am fesurau a fyddai'n eu helpu i gymryd mwy o deithiau teithio llesol. Nododd mwy o ymatebwyr welliannau i seilwaith teithio llesol, megis llwybrau wedi’u cynnal a’u cadw’n dda ar gyfer cerddwyr (78 y cant) a llwybrau beicio heb draffig (54 y cant), fel mesurau a fyddai'n eu helpu i gerdded a/neu feicio mwy. Mewn cymhariaeth, dywedodd llai o ymatebwyr y byddai cyflymderau ffyrdd arafach

a llai o gerbydau ar y strydoedd a'r ffyrdd yn eu helpu i gerdded a/neu feicio mwy (47 y cant).

4.10 Er gwaethaf y safbwyntiau hyn ar gyflymder ffyrdd arafach a nifer y cerbydau modur, mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu y gallai pryderon diogelwch fod wedi bod yn rhwystr i fathau penodol o deithio llesol. Dywedodd llai na thri o bob deg ymatebydd (27 y cant) eu bod yn teimlo'n ddiogel yn beicio ar ffyrdd lleol. Dywedodd canran uwch o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel yn cerdded yn eu cymdogaeth (88 y cant). Fodd bynnag, allan o 413 o'r ymatebwyr yr oedd y mater yn berthnasol iddynt, dywedodd 46 y cant nad oeddent yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn croesi'r ffordd ar eu pen eu hunain. Yn yr un modd, o blith 351 o ymatebwyr yr oedd y mater yn berthnasol iddynt, dywedodd 63 y cant nad oeddent yn teimlo bod eu plant yn ddiogel yn beicio ar ffyrdd lleol ar eu pen eu hunain. Roedd pryderon diogelwch yn broblem i grwpiau demograffig eraill. Nododd llai na dau o bob deg ymatebydd benywaidd (17 y cant) eu bod yn teimlo'n ddiogel yn beicio ar ffyrdd lleol. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu y gallai fod gwerth ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw grwpiau demograffig penodol yn teimlo'n ddiogel mewn cysylltiad â theithio llesol, yn enwedig beicio.

# 5. Atodiad A

## Methodoleg (parhad)

5.1 Cynhaliodd Beaufort y cyfweliadau ar-lein gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein Cint™. Mae platfform Cint™ a'i gynhyrchion yn cydymffurfio ag amryw o safonau yn y diwydiant gan gynnwys ISO 20252 - y safon ansawdd rhyngwladol ar gyfer gwasanaethau ymchwil i'r farchnad. Mae gwiriadau ansawdd data lluosog wedi'u cynnwys yn y system Cint™ ac mae Beaufort yn ychwanegu ei gwestiynau a'i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac nid yw'n cynnwys ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

5.2 Mae'r arolwg yn defnyddio rheolaethau cwota oedran o fewn rhywedd sy'n plethu.[38] Gosodwyd rheolaeth cwota ar wahân pellach ar raddau cymdeithasol a chwblhawyd holiaduron gan drigolion pob awdurdod lleol yng Nghymru.

5.3 Yn y cam dadansoddi, pwysolwyd y data yn ôl grŵp oedran, rhywedd, grwpiau Awdurdodau Lleol a gradd gymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu cyfrifiad 2011 a nodweddion demograffig poblogaeth oedolion (16+) Cymru.

5.4 Mae cwestiynau demograffig yn cael eu cynnwys fel mater o drefn yn arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr arolwg ar gael yn Saesneg ac yn y Gymraeg a gellid ei gwblhau yn yr iaith oedd orau gan yr ymatebwyr.

[38] Mae rheolaethau cwota yn niferoedd targed o gyfweliadau sydd wedi'u gosod ar gyfer grwpiau demograffig penodol yn y boblogaeth. Mae rheolaethau cwota demograffig sy'n plethu yn golygu bod y targed yn ymgorffori dau newidyn: grŵp oedran o fewn rhywedd.

## 6. Atodiad B

**Cwestiynau ar gyfer Omnibws Cymru**
**Arolwg Teithio Llesol Llywodraeth Cymru**

Nawr, cwestiynau ynghylch sut yr ydych yn teithio o gwmpas.

**Noder:** Pan ofynnir ichi am deithio ar droed neu ar feic yn ystod yr holiadur hwn, atebwch am deithiau i gyrraedd cyrchfan neu gyswllt i drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na theithiau hamdden, megis mynd am dro, mynd i redeg neu fynd ar daith feic hamddenol. Cofiwch gynnwys y defnydd o gadeiriau olwyn a sgwteri symudedd wrth ystyried cerdded, a phan gyfeirir at feiciau, maent yn cynnwys mathau eraill o feiciau, megis beic tair olwyn neu feiciau llaw.

**QAT1 Gan ystyried y gwahanol ffyrdd yr ydych yn teithio o gwmpas (<u>heb gynnwys tripiau hamdden</u>, megis mynd am dro, mynd i redeg neu daith feic hamddenol), pa mor aml ydych chi'n...?**

Rhowch eich amcangyfrif gorau.

a) Teithio mewn car, fan neu ar feic modur fel gyrrwr
b) Teithio mewn car, fan neu ar feic modur fel teithiwr (yn cynnwys tacsis a llogi preifat)
c) Cerdded neu redeg
d) Beicio
e) Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
f) Defnyddio sgwter neu sgwter trydan

7 diwrnod yr wythnos

5-6 diwrnod yr wythnos

2-4 diwrnod yr wythnos

Unwaith yr wythnos

Unwaith bob pythefnos

Unwaith y mis

Llai aml

Byth

**QAT2 Ar gyfer pob un o'r dulliau hyn o deithio, a fyddech chi'n dweud eich bod yn gwneud mwy ynteu llai ohono nag oeddech 3 blynedd yn ôl?**

a) Teithio mewn car, fan neu ar feic modur fel gyrrwr
b) Teithio mewn car, fan neu ar feic modur fel teithiwr (yn cynnwys tacsis a llogi preifat)
c) Cerdded neu redeg
d) Beicio
e) Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus
f) Defnyddio sgwter neu sgwter trydan

Llawer mwy

Ychydig yn fwy

Tua'r un fath

Ychydig llai

Llawer llai

Amherthnasol - Nid wyf wedi defnyddio'r dull hwn o deithio ers o leiaf 3 blynedd

ASK Q3 IF TRAVEL MORE/LESS TO ANY AT Q2

**QAT3 Gan ystyried eich atebion i'r cwestiwn blaenorol, pam ydych chi'n meddwl bod eich dulliau o deithio wedi newid?**

Dewiswch pob un sy'n berthnasol

Mae fy amgylchiadau gwaith / addysg wedi newid o ganlyniad i Covid

Mae fy amgylchiadau gwaith / addysg wedi newid am reswm arall

Mae fy amgylchiadau teuluol wedi newid

Mae fy iechyd wedi newid

Mae amgylchiadau personol eraill wedi newid

Dewisais deithio mewn modd arall oherwydd rhesymau iechyd

Dewisais deithio mewn modd arall oherwydd rhesymau ariannol

Dewisais deithio mewn modd arall oherwydd rhesymau amgylcheddol

Arall (Nodwch)

Ddim yn gwybod

**QAT4 Sut ydych chi fel arfer yn teithio ar gyfer pob un o'r siwrneiau canlynol?**
Dewiswch yr holl ddulliau rydych chi'n eu defnyddio i wneud pob taith gyflawn.

| | | Teithio mewn car, fan neu ar feic modur fel gyrrwr | Teithio mewn car, fan neu ar feic modur fel teithiwr (yn cynnwys tacsis a llogi preifat) | Cerdded neu redeg | Beicio | Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus | Defnyddio sgwter neu sgwter trydan | Arall | Amherthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| i) | Cymudo i'r gwaith neu addysg (ar wahân i fynd â phlant i'r ysgol) | | | | | | | | |
| ii) | Mynd â phlant i / o'r ysgol | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| iii) | Siopa, materion personol (ymweld â siop trin gwallt etc), iechyd | | | | | | | | |
| iv) | Ymweld â ffrindiau a theulu / mynd allan | | | | | | | | |
| v) | Mynd â / mynd gyda phobl eraill (ar wahân i fynd â phlant i'r ysgol) | | | | | | | | |

Ac yn awr rhai cwestiynau ynghylch pam rydych chi'n cerdded ac yn beicio ai peidio.

**QAT5 Pa mor ddefnyddiol fyddai'r canlynol i fod o gymorth ichi gerdded mwy?**

a) Mwy o lwybrau uniongyrchol i ble rwyf eisiau mynd
b) Palmentydd a llwybrau wedi'u cynnal a'u cadw yn dda (gwastad, glân, clir, wedi'u goleuo'n dda, wedi eu graeanu yn ystod y gaeaf)
c) Llai o gerbydau modur ar ein strydoedd
d) Cyflymderau arafach ar ffyrdd
e) Llai o geir wedi parcio ar y palmant
f) Mwy o ostwng palmentydd mewn mannau croesi
g) Palmentydd lletach

h) Mwy o fannau croesi ffyrdd diogel, gydag amseroedd aros llai
i) Llwybrau harddach ar hyd strydoedd gyda lleoedd i aros a chael eich gwynt atoch, e.e. mwy o feinciau, coed, cysgodfeydd a thoiledau cyhoeddus
j) Gwybodaeth ac arwyddion gwell ar gyfer llwybrau cerdded
k) Mwy o gyrchfannau megis siopau, banciau, meddygfeydd, ysgolion, caffis, parciau etc. yn agos i'ch cartref
l) Iechyd meddwl / corfforol gwell

Defnyddiol iawn

Eithaf defnyddiol

Ddim yn ddefnyddiol iawn

Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

Ddim yn gwybod

**QAT6 Pa mor ddefnyddiol, os o gwbl, fyddai'r canlynol i fod o gymorth ichi ddechrau <u>beicio</u> neu feicio mwy?**

a) Mwy o draciau beic ar hyd ffyrdd sydd wedi eu gwahanu'n ffisegol oddi wrth draffig a cherddwyr
b) Mwy o lwybrau beicio heb draffig sydd ymhell oddi wrth ffyrdd e.e. drwy barciau neu ar hyd dyfrffyrdd
c) Mwy o lwybrau beic lleol gydag arwyddion ar hyd strydoedd tawelach lle mae llai o draffig
d) Llwybrau beic wedi'u cynnal a'u cadw'n well (gwastad, glân, heb dyfiant; wedi eu graeanu yn ystod y gaeaf)
e) Cyflymder arafach a / neu lai o gerbydau modur ar ffyrdd
f) Cyrsiau hyfforddi beicio
g) Mynediad i feic sylfaenol
h) Mynediad at feic ansafonol, megis beic trydan, beic wedi'i addasu neu feic cargo
i) Mynediad i fan cadw beic diogel gartref neu'n agos at gartref neu fy nghyrchfan
j) Cyswllt gwell gyda thrafnidiaeth gyhoeddus (e.e. parcio diogel ar gyfer beiciau mewn gorsafoedd trenau; cael cludo beic ar drafnidiaeth gyhoeddus)
k) Iechyd meddwl a/neu gorfforol gwell

Defnyddiol iawn

Eithaf defnyddiol

Ddim yn ddefnyddiol iawn

Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

Ddim yn gwybod

**If answered 'very or fairly useful' to g and /or h:**

**QAT7 Pa mor ddefnyddiol fyddai unrhyw rai o'r opsiynau hyn i wella mynediad at feiciau i chi'n bersonol?**

a) Mynediad i e-feic cost isel hir dymor neu logi beic ansafonol arall (e.e. beic wedi'i addasu neu feic cargo)
b) Mynediad i fenthyciad tymor byr / beiciau llogi, megis llogi beic cyhoeddus ar y stryd (e.e. ovobikes / nextbike)
c) Ei gwneud hi'n haws i brynu beiciau drytach drwy fenthyciadau heb log, neu opsiynau prydles
d) Gwneud trwsio beiciau yn rhatach neu'n rhad ac am ddim a / neu gael y cyfle i ddysgu trwsio beiciau
e) Y cyfle i drio ystod o feiciau a / neu dderbyn cyngor cyn prynu

Defnyddiol iawn

Eithaf defnyddiol

Ddim yn ddefnyddiol iawn

Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

Ddim yn gwybod

**Gan barhau i ystyried teithio wrth gerdded neu feicio fel <u>teithiau i gyrraedd cyrchfan neu gyswllt i drafnidiaeth gyhoeddus</u> yn hytrach na theithiau hamdden, megis mynd am dro, mynd i redeg neu fynd ar daith feic hamddenol...**

**QAT8a Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio chi orau? A fyddech chi'n dweud eich bod chi'n berson sydd...**

ddim yn beicio ond yn dymuno gwneud

ddim yn beicio a ddim yn dymuno gwneud

yn newydd neu'n dychwelyd at feicio

yn beicio weithiau

yn beicio'n rheolaidd

**Gan barhau i ystyried teithio wrth gerdded neu feicio fel <u>teithiau i gyrraedd cyrchfan neu gyswllt i drafnidiaeth gyhoeddus</u> yn hytrach na theithiau hamdden, megis mynd am dro, mynd i redeg neu fynd ar daith feic hamddenol...**

**QAT8b Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio chi orau? A fyddech chi'n dweud eich bod chi'n berson sydd...**

ddim yn cerdded ond yn dymuno gwneud

ddim yn cerdded a ddim yn dymuno gwneud

yn newydd neu'n dychwelyd at gerdded fel ffordd o deithio

yn cerdded weithiau

yn cerdded yn rheolaidd

**QAT9 A chwestiynau nawr am eich barn chi am drafnidiaeth, cerdded a beicio yn eich ardal chi.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol?**

a) Mae gwelliannau wedi bod yn fy ardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer pobl sydd eisiau cerdded, er enghraifft palmentydd lletach, croesfannau newydd, gostwng palmentydd
b) Mae gwelliannau wedi bod yn fy ardal leol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar gyfer pobl sydd eisiau beicio, er enghraifft llwybrau a thraciau beicio newydd, mannau parcio beiciau, arwyddion, llogi beiciau ar y stryd
c) Yn ystod y blynyddoedd diwethaf rwyf wedi sylwi bod mwy o bobl yn cerdded a/neu feicio yn fy ardal leol
d) Mae'r cyngor wedi gofyn am farn y cyhoedd ar gynlluniau ar gyfer llwybrau beicio a cherdded neu i wella llwybrau
e) Rwy'n gwybod ble y gallaf ddod o hyd i wybodaeth am lwybrau cerdded a beicio yn fy ardal leol

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

**QAT10 A ydych chi mewn addysg ac/neu a oes gennych chi unrhyw blant yn unrhyw rai o'r lleoliadau canlynol?**

Dewiswch pob un sy'n berthnasol

Oes – mae gennyf blentyn / blant yn yr ysgol gynradd

Oes – mae gennyf blentyn / blant yn yr ysgol uwchradd neu goleg chweched dosbarth

Ydw – rwy'n mynychu'r ysgol uwchradd neu goleg chweched dosbarth

Ydw – rwyf yn y brifysgol / coleg / math arall o addysg

Dim o'r uchod

**ASK IF HAVE PRIMARY/SECONDARY SCHOOL AGE CHILDREN, OR IF AT SECONDARY SCHOOL/SIXTH-FORM COLLEGE (OPTIONS 1 to 3 AT Q10)**

**QAT11 I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod...**

a) Ysgolion yn annog plant i gerdded, beicio neu fynd ar sgwter i'r ysgol yn fy ardal leol
b) Plant yn derbyn neu'n cael cynnig hyfforddiant beicio yn fy ardal leol
c) Cyfleusterau ar gyfer teithio i'r ysgol ar feic neu ar droed (e.e. mannau parcio beic neu sgwter, mannau sychu dillad) wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf

Cytuno'n gryf

Cytuno

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

Anghytuno

Anghytuno'n gryf

Ddim yn gwybod

**QAT12 Pa mor ddiogel ydych yn teimlo yn eich cymdogaeth wrth wneud y canlynol...?**

i. Cerdded
ii. Cerdded fy mhlant i'r ysgol
iii. Beicio ar ffyrdd lleol
iv. Fy mhlant yn beicio ar ffyrdd lleol ar eu pen eu hunain
v. Croesi'r ffordd
vi. Fy mhlant yn croesi'r ffordd ar eu pen eu hunain

Diogel iawn

Eithaf diogel

Ddim yn ddiogel iawn

Ddim yn ddiogel o gwbl

Ddim yn gwybod

Amherthnasol

**QAT13 Sawl un o'r canlynol ydych chi'n berchen arnynt ar eich aelwyd?**

a) Beiciau pedal oedolion (nad yw'n drydan)
b) Beiciau trydan oedolion
c) Beiciau oedolion eraill, yn cynnwys beiciau llaw, beiciau tair olwyn, tandemau, beiciau gorweddol, beiciau cargo (pedal neu drydan)
d) Beiciau plant, yn cynnwys beiciau tair olwyn a mathau eraill o feiciau (pedal neu drydan)
e) Sgwteri oedolion
f) Sgwteri plant

Dim

Un

Dau

Tri neu fwy

**Yn ogystal, cwestiynau proffil safonol:** oedran, rhywedd, gradd economaidd-gymdeithasol, rhanbarth Cymru, siarad Cymraeg ai peidio

**A seibiannau ychwanegol ar gyfer:** cyfansoddiad yr aelwyd (DS plant ar yr aelwyd), statws gwaith, salwch sy'n cyfyngu ac ethnigrwydd